17/03/2026

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Annwyl Riant/Warchodwr,

**PARTHED: Salwch gastroberfeddol yn: YGG CWMNEDD.**

Ysgrifennaf i roi gwybod i chi fod cynnydd o ran nifer y disgyblion yn YGG Cwmnedd sy'n dangos symptomau dolur rhydd a chwydu sy'n gyson â norofeirws/gastroenteritis feirysol.

Mae Tîm Diogelu Iechyd Castell-nedd Port Talbot yn datgan bod symptomau norofeirws yn cynnwys chwydu, dolur rhydd, poen abdomenol, cur pen a thwymyn. Fel arfer, daw'r cyflwr i ben o fewn 24 i 48 awr, ond mae'n heintus iawn. Cyfnod magu'r salwch fel arfer yw rhwng 24 a 48 awr cyn i'r symptomau ymddangos.

**Os yw eich plentyn yn datblygu'r symptomau hyn, er mwyn atal rhagor o achosion yn yr ysgol, a wnewch chi gadw eich plentyn gartref am o leiaf 48 awr ar ôl yr enghraifft olaf o ddolur rhydd, chwydu neu dwymyn.**

Nid oes ffordd benodol o drin norofeirws, ond mae'n bwysig annog eich plentyn i yfed digon o hylifau er mwyn ei atal rhag dadhydradu.

Mae feirysau'n lledu'n hawdd o unigolyn i unigolyn. Mae arferion hylendid da gan bawb yn y teulu'n lleihau'r risg o ledu feirysau. Mae hyn yn golygu golchi eich dwylo â sebon (sebon hylif yn ddelfrydol) a dŵr ar ôl defnyddio'r toiled a chyn paratoi neu fwyta bwyd.

Mae'n bwysig clirio cyfog neu ysgarthion ar unwaith gan eu bod yn heintus iawn, drwy olchi'r amgylchedd a halogir yn drylwyr â sebon a dŵr poeth ac yna ei ddiheintio â hydoddiant cannydd/gwrthfeirol ar ôl clirio'r cyfog/dolur rhydd. (Yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.)

Sicrhewch fod pob aelod o'r teulu'n defnyddio tywelion a chlytiau sychu gwahanol lle y bo'n bosib, a'u bod yn cael eu newid a'u golchi'n aml ar dymheredd uchel.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda Thîm Diogelu Iechyd Castell-nedd Port Talbot a gwasanaethau glanhau'r awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod mesurau rheoli priodol ar waith a bod yr ysgol yn cael ei glanhau'n drylwyr.

Os ydych yn poeni am eich plentyn ac os yw'r symptomau'n parhau, a wnewch chi ffonio eich meddyg teulu neu wasanaeth Galw Iechyd Cymru ar 111.

Cofion cynnes

*R Jones*

**Swyddog Diogelu Iechyd/Health Protection Officer**
**Tîm Diogelu Iechyd/Health Protection Team**
**Iechyd yr Amgylchedd/Environmental Health**

**Amgylchedd ac Adfywio**
**Ceri Morris Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd**
Y Ceiau, Ffordd Brunel, Parc Ynni Baglan, Castell-nedd SA11 2GG
Ffôn 01639 686868

**Environment and Regeneration**
***Ceri Morris Head of Planning and Public Protection***
*The Quays, Brunel Way, Baglan Energy Park, Neath SA11 2GG*
*Tel 01639 686868*

www.npt.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a byddwn yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg a Saesneg i'r un safonau ac amserlenni.
We welcome correspondence in Welsh and will deal with Welsh and English correspondence to the same standards and timescales.